Ian Bellingham
Hosbis Sant Kentigern
Ffordd Dinbych Uchaf
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0RS

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIWInspections@wales.gsi.gov.uk

1 Awst 2014

Annwyl Mr Bellingham,

**Parthed: Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru arolygiad lle rhoddwyd rhybudd â Hosbis St Kentigern ar 15 Gorffennaf 2014**

Fel y gwyddoch cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad lle rhoddwyd rhybudd â Hosbis St Kentigern ar 15 Gorffennaf 2014.

**Golwg Gyffredinol ar y Lleoliad Gofal Iechyd**

Mae Hosbis St Kentigern yn darparu gofal seibiant a lliniarol ar gyfer oedolion sy'n dioddef o gyflyrau sy'n cyfyngu eu bywydau. Fe'i hadeiladwyd yn bwrpasol ac mae'n darparu gofal ar gyfer cleifion mewnol a dydd a rheolir y rhain ar wahân ond maent wedi eu cysylltu gan goridor. Rheolir yr hosbis mewn ffordd ddemocrataidd ac agored a cheir gweithdrefnau archwilio eglur ar waith sy'n asesu'r gofal a'r ddarpariaeth o fewn yr hosbis ac yn erbyn sefydliadau gofal seibiant a lliniarol eraill.

Roedd yr awyrgylch yn gadarnhaol iawn ac roedd yn eglur bod aelodau staff yn cael eu hannog i ddatblygu dulliau gofal ac yn mwynhau gweithio yno. Mae'r driniaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac roedd asesiadau o anghenion yn drylwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth gydnabyddedig. Mae'r ddarpariaeth o ofal lliniarol yn seiliedig ar Safonau Cymru Gyfan ac roedd yr aelodau staff yn ymwybodol o'r rhain.

**Ansawdd y Driniaeth a'r Gofal**

**Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Claf**

Roedd yn glir bod y gofal o safon uchel ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn unol â safonau Cymru Gyfan. Cafodd systemau monitro ac archwilio eu hadolygu'n ddiweddar ac roedd cynllun i ailddechrau archwilio'n gyson ar ôl i hyn gael ei gyfyngu dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd galwadau eraill ar yr hosbis.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.agic.org.uk

Penderfynir ar ofal yn ôl angen y claf unigol ac mae asesiadau a dogfennau'n ymwneud â chleifion yn helaeth ac yn barhaus. Caiff triniaethau clinigol eu hesbonio i gleifion fel eu bod yn deall goblygiadau'r driniaeth, gan gynnwys y risgiau a'r sgil-effeithiau posibl, ac unrhyw opsiynau sydd ar gael iddynt.

Mae cleifion yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal. Mae cleifion yn cael cymaint o ddewis ag y gellir ei roi iddynt. Roedd yn ymddangos bod yr holl aelodau staff yn ystyriol o hawliau cleifion i breifatrwydd, urddas ac annibyniaeth fel roedd eu cyflwr yn ei ganiatáu. Cadarnhaodd y dogfennau cleifion a welwyd yn yr arolygiad bod meddygon, nyrsys, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol yn cymryd rhan yng ngofal unigolion. Caiff yr holl ofal ei adolygu a'i gofnodi'n feunyddiol. Gall cleifion gael mynediad at eu cofnodion ac roeddent yn ymwybodol o hyn. Ceir prosesau atgyfeirio eglur ac mae'r hosbis hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau cymunedol ac asiantaethau eraill e.e. Marie Curie, Macmillan. Arweinir yr hosbis gan nyrsys gyda rowndiau ward meddygol rheolaidd a thrafodir gofal y cleifion gyda'r cleifion a pherthnasau os yw'r cleifion yn dymuno.

Darperir preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd yn ystod trafodaethau neu archwiliadau meddygol mewn ystafelloedd gwely preifat, neu drwy ddefnyddio ystafelloedd ymgynghori, ystafelloedd clinigol, ac ystafelloedd eistedd yn ddibynnol ar ddewis y claf a'i berthynas.

**Asesu Anghenion Cleifion a Gofalwyr**

Caiff asesiadau eu cynnal a'u diweddaru gan holl aelodau'r tîm amlddisgyblaeth. Mae cynlluniau gofal ar waith yn seiliedig ar dystiolaeth ac adolygiad parhaus eglur o gyflwr y claf a welwyd drwy'r dogfennau.

**Trefniadau ar gyfer Gofal**

Mae'r wybodaeth a ddarperir i gleifion, teuluoedd a gofalwyr yn eglur ac yn gwbl hygyrch. Datgelodd trafodaethau gydag aelodau staff bod cleifion a'u teuluoedd yn cymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal.

**Cofnodion Gofal**

Mae cleifion a theuluoedd yn cymryd rhan yn y broses o benderfynu ar eu gofal a chyflawnir arfer yn seiliedig ar dystiolaeth. Caiff yr holl wybodaeth ei chofnodi'n feunyddiol. Mae gweithdrefnau diogelu data ar waith yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â chyfrinachedd.

**Y Ddarpariaeth o Ofal Lliniarol a Gofal am y Rhai sy'n Marw**



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.agic.org.uk

Mae’r hosbis yn dilyn arfer sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac mae’r aelodau staff wedi eu haddysgu’n briodol i ddarparu hyn. Mae llwybr gofal yr hosbis ar gyfer y diwrnodau olaf o fywyd yn llywio arfer ac yn cofnodi dymuniadau cleifion.
Rhagnodir meddyginiaeth lleddfu poen naill ai gan ymarferwyr nyrsio uwch a hyfforddwyd mewn ffordd briodol, neu gan staff meddygol sy'n cael eu monitro a'u hadolygu'n barhaus. Roedd nifer yr aelodau staff a’r gymysgedd sgiliau yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion a’u teuluoedd.

Darparwyd gofal terfynol cleifion a’u teuluoedd gyda chydymdeimlad, gofal a thosturi, sy’n cynnig cysur, cryfder a chefnogaeth. Mae polisïau/gweithdrefnau ar waith o ran arosiadau dros nos i berthnasau, ond nid ar gyfer y camau i’w cymryd ar yr adeg marwolaeth, a swyddogaethau olaf. Mae angen adolygu’r polisïau hyn. Mae trefniadau ar waith ar gyfer eiriolaeth, cwnsela profedigaeth a gofal bugeiliol.

Nid yw’r hosbis yn darparu gwasanaethau gofal lliniarol i blant. Fodd bynnag, mae plant yn ymweld â’r hosbis i weld teulu a darperir cefnogaeth profedigaeth iddynt gan gwnselydd hyfforddedig.

### Adborth gan Gleifion a Chwynion

Rhoddir cyfleoedd i gleifion a gofalwyr roi adborth, a chaiff gwybodaeth am gwynion ei chyfrannu at y broses adolygu sy’n barhaus hefyd. Mae systemau eglur ar waith ar gyfer rheoli cwynion. Fodd bynnag, canfuwyd bod angen adolygu’r polisi ar gyfer cwynion. Mae Datganiad o Ddiben a Chanllaw Cleifion yr hosbis yn cynnwys gwybodaeth am gwynion. Cedwir cofnodion o gwynion yn Hosbis Sant Kentigern ac fe’u harchwilir yn rheolaidd. Cymerir camau ar sail y canlyniadau. Caiff cwynion eu trin yn gadarnhaol er mwyn gwella’r gofal a darpariaeth y gwasanaeth.

### Safbwyntiau Cleifion

Roedd cleifion yn gadarnhaol iawn ynghylch pob agwedd o'r ddarpariaeth gofal yn yr hosbis. Roedd hyn yn cynnwys rhyngweithio'r staff, darparu gwybodaeth a chyfathrebu. Dywedodd un claf “Does gen i ddim pryderon o gwbl yn treulio fy niwrnodau olaf fan hyn”.

### Polisïau a Gweithdrefnau

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn cynorthwyo staff i ddarparu gofal, ac mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u diwallu'n ddiweddar.

### Cyfrifoldeb am Wasanaethau Fferyllol

### Archebu, Storio, Defnyddio a Chael Gwared ar Feddyginiaeth

Ceir siartiau presgripsiwn clir. Mae'r holl feddyginiaeth yn cael ei storio mewn ffordd briodol yn ôl y ddeddfwriaeth. Cedwir cofnodion o'r holl feddyginiaeth a dderbyniwyd



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.agic.org.uk

a'r feddyginiaeth y cafwyd gwared arni, neu'r feddyginiaeth a ddychwelwyd at y teulu ar ddiwedd arhosiad y claf.
Mae'r trefniadau storio yn dda, ac roedd ystafell benodedig â chypyrddau. Ceir hefyd cypyrddau clo gan bob claf yn ei ystafell ar gyfer ei feddyginiaeth unigol. Fodd bynnag, er gwaetha'r polisi o hunanfeddyginiaeth, ni ddefnyddir y cypyrddau hyn, oherwydd mae'n well gan gleifion fod staff yn dosbarthu eu meddyginiaeth.

Storir ac ymdrinnir â chyffuriau a reolir yn unol â'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau a'i Rheoliadau. Gwnaeth adolygiad o Gyffuriau a Reolir ddangos fod y rhain yn cael eu rheoli mewn ffordd briodol. Mae rhai cyfleusterau ar gael er mwyn i'r staff ddod o hyd i wybodaeth ynghylch meddyginiaeth ond nid oes rhaglen addysg barhaus ac fe'i hargymhellwyd y dylai'r holl staff sydd â swyddogaeth rheoli meddyginiaeth dderbyn hyfforddiant dros y flwyddyn sydd i ddod.

**Storio a Chyflenwi Nwyon Meddygol**

Roedd nwyon meddygol yn cael eu storio, ac roedd polisi ar waith.

**Llywodraethu Clinigol a Rheoli Risg**

Mae trefniadau llywodraethu clinigol ar waith ac f'eu hadolygwyd a'u hailstrwythurwyd yn ddiweddar yn dilyn cyfnod heb gyfarfodydd cyson. Roeddem yn gallu gweld cofnodion cyfarfodydd diweddar ac roedd y rhain yn dangos tystiolaeth o drafodaeth a chynlluniau gweithredu i wella ac i fonitro ansawdd gofal. Bydd y fframwaith llywodraethu clinigol newydd yn sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal. Cafodd systemau addysg, hyfforddiant a rheoli risg eu hadolygu a'u diweddaru'n ddiweddar.

**Rheoli Risg**

Yn glinigol, ceir systemau ar waith i leihau risgiau i aelodau staff a chleifion, fel polisïau symud a thrafod ac addysg a hyfforddiant ar y defnydd o ddyfeisiau mewnwythiennol. Mae’r polisïau a’r gweithdrefnau yn yr hosbis yn cydnabod ac yn cymryd i ystyriaeth arfer da a gofynion a chyfreithiau iechyd a diogelwch. Anfonir hysbysiadau am beryglon i’r rheolwr ac yna fe’u dosberthir i holl aelodau’r staff drwy broses ffurfiol.

**Iechyd a Diogelwch**

Mae polisïau/gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch ar waith. Dosberthir gwybodaeth i’r holl aelodau staff yn y sefydliad. Caiff taflenni Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) eu hadolygu a’u diweddaru’n barhaus ac fe’u cedwir ym mhob adran.

Cedwir cofnod o ddamweiniau cleifion, ymwelwyr ac aelodau staff. Cedwir cofnodion yn ddiogel ac fe’u harchwilir i ddadansoddi tueddiadau. Bodlonir gofynion o ran


Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.agic.org.uk

Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR). Mae polisi cyfathrebu ar waith o ran cyfrifoldebau am hysbysu AGIC am ddigwyddiadau difrifol.

**Hyfforddiant Tân Staff**

Roedd Asesiad Risgiau Tân cyfredol ar waith. Ceir unigolyn enwebedig sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân y safle. Mae aelodau staff wedi mynychu hyfforddiant tân.

**Rheoli Heintiau**

Mae polisïau/gweithdrefnau ar waith o ran systemau ar gyfer prosesau dadhalogi, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i leihau heintiau. Roedd cyfarpar digonol, ac roedd y staff wedi derbyn addysg a hyfforddiant. Bwriedir cynnal archwiliadau rheoli heintiau cyson. Cafodd y systemau llifddor a golchi eu gwella'n ddiweddar, a chyflwynwyd cyfarpar newydd.

**Rheoli a Phersonél**

**Rheolwr Cofrestredig**

Mae strwythur trefniadaeth a rheolaeth clir yn St Kentigern. Mae gan reolwr yr hosbis sgiliau a phrofiad priodol er mwyn gallu sicrhau gofal boddhaol. Mae gan aelodau eraill o staff sy'n gweithio yn yr hosbis gymwysterau addas, ac mae cymysgedd o ddisgyblaethau ymhlith staff yr hosbis.

**Nyrs (Arweinydd Clinigol) yr Hosbis**

Mae gan Nyrs Arwain Clinigol yr hosbis gymwysterau priodol a phrofiad i allu sicrhau gofal boddhaol i'r cleifion.

**Staff Nyrsio**

Mae gan holl aelodau'r staff gymwysterau a hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae aelodau'r staff nyrsio yn cynnal eu harfer yn unol â'u corff cofrestru - y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae system yn bodoli er mwyn sicrhau bod yr holl staff cofrestredig ar y gofrestr. Roedd rhestr ddyletswydd y ward yn nodi bod nifer a chymysgedd sgiliau'r aelodau staff ar bob shifft dros gyfnod o 24 awr yn briodol i nifer ac anghenion y cleifion mewnol ar adeg yr arolygiad.

**Arbenigedd a Hyfforddiant Gofal Lliniarol ar gyfer Timau Amlbroffesiwn**

Mae systemau ar waith i sicrhau bod cymwysterau proffesiynol holl aelodau'r staff yn gyfredol. Mae system o addysg a datblygiad personol ar gyfer pob aelod o staff ac roedd arfarniadau ar y gweill er mwyn darganfod anghenion datblygu'r staff.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.agic.org.uk

Ceir system ar gyfer goruchwyliaeth glinigol grŵp ac unigol i aelodau staff. Disgwylir i aelodau staff fod yn ymwybodol o arfer clinigol a phroffesiynol cyfredol a'r polisïau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir yn yr hosbis.

**Adnoddau Dynol**

Mae polisïau a gweithdrefnau personél ar waith. Gwelwyd sampl gynrychiadol o gofnodion personél y staff a gwelwyd eu bod yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac eithrio gwybodaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n cael ei diweddaru ar hyn o bryd.

**Amddiffyn Oedolion**

Mae polisi Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) ar waith. Mae'r cofnodion yn dangos bod hyfforddiant Amddiffyn Oedolion wedi cael ei ddarparu.

**Chwythu'r chwiban**

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith o ran (chwythu'r chwiban) er mwyn i aelodau staff fod yn gyfforddus â hysbysu aelodau staff uwch am bryderon am arferion gofal gwael. Mae gwybodaeth am godi pryderon wedi ei chynnwys yn y llawlyfr staff.

**Rheoli Cofnodion**

Roedd yr holl gofnodion sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth ar waith ac roedd dogfennau'n cael eu cynnal a'u cadw yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data. Dilynir yr holl ganllawiau diogelu data a Caldicott ac arsylwyd bod y broses o reoli gwybodaeth yn foddhaol. Roedd cofnodion cleifion yn eglur a chyfredol ac mae holl aelodau'r tîm amlddisgyblaeth yn defnyddio'r un system gofnodion.

**Gwaith Ymchwil**

Mae polisi ymchwil er mwyn sicrhau bod ymddygiad priodol, a bod ymchwil yn cael ei chynnal gyda chaniatâd cleifion.

**Safle, Amgylchedd a Chyfleusterau**

Mae'r hosbis yn gyfleuster a gafodd ei adeiladu'n bwrpasol, a cheir mynediad ati o dderbynfa sydd wedi'i staffio. I'r chwith, gellir cael mynediad at ardal y gwelyau, ac i'r dde mae cyfleusterau gofal dydd a'r weinyddiaeth. Mae'r llety'n cael ei gynnal a'i chadw i safon uchel, a chafodd y pibellau gwresogi yn yr ystafell ddydd eu hynysu ers yr arolygiad diwethaf, yn ogystal â diogelwch y socedi trydanol llusgo, a rhesymoli cyfleusterau storio drwy gydol yr adeilad.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.agic.org.uk

### Diogelwch Tân

Caiff y system Larwm Tân ei phrofi'n gyson bob wythnos, ac roedd yr adroddiadau gwasanaethu chwarterol yn foddhaol. Caiff y gosodiad golau argyfwng ei brofi bob mis, ac yn yr arolygiad diwethaf ar 20 Mai 2014 cofnodwyd bod effeithlonrwydd rhai golau yn ysbeidiol, a gofynnwyd am ddyfynbris o'r Adran Ystadau. Yn ogystal, nid oedd tystiolaeth o gynnal profion dadwefru un awr neu ddwy awr yn unol â BS 5266. Gan nad oes tystiolaeth o gynnal profion dadwefru, dylid cynnal prawf dadwefru llawn tair awr er mwyn darganfod effeithlonrwydd y system gyfredol. Caiff diffoddwyr tân yn cael eu harolygu'n gyson, ac fe'u gwasanaethwyd ym mis Mai 2014.

Cynhyrchwyd Asesiad Risg Tân ym mis Mehefin 2014, a gwnaed argymhellion bach ynglŷn ag arwyddion, caewyr drysau a'r mannau lle lleolir cypyrddau storio.

### Gwasanaethau Trydanol

Cafodd y system galw i'r cleifion ei phrofi'n foddhaol ym mis Rhagfyr 2013. Rhoddwyd tystysgrif ail-adolygu ar gyfer gosodiad y gwifrau trydan ar 9 Rhagfyr 2012, ac roedd hon yn cynnwys unrhyw ofynion er mwyn i'r dystysgrif fod yn ddilys. Roedd dau ofyniad Cod C1 a 39 Cod C2, ac er yr adroddwyd ar 23 Ebrill 2013 bod rhai eitemau wedi cael sylw, nid oedd yn glir beth oedd yn dal heb gael ei wneud.

Mae'r canllawiau sy'n atodedig i Dystysgrif y Cyngor Archwilio Cenedlaethol ar gyfer Contractio Gosodiadau Trydanol (NICEIC) (NICEIC yw'r prif gorff rheoleiddio gwirfoddol ar gyfer y diwydiant contractio trydanol) yn datgan bod eitemau Cod 1 angen gwaith adfer ar frys, a bod angen cymryd camau adfer yn ddi-oed ar gyfer eitemau Cod 2. Rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys.

Cynhaliwyd profi offer cludadwy yn Chwefror 2014, fel y gwelwyd ar y labeli a oedd ar blygiau. Nid oedd adroddiad profi ar gael.

### Gwasanaethau Dŵr

Gwelwyd asesiad risg ac adroddiad arolwg hylendid dŵr, wedi eu dyddio 29 Ebrill 2013. O fewn yr asesiad risg, nodwyd un deg pedwar o bryderon canolig, a gweithredwyd ar dri ohonynt; roedd hefyd saith o bryderon isel, a gweithredwyd ar un ohonynt. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â chael gwared ar ddarnau o bibellau nas defnyddir, a thymheredd dŵr poeth yn yr allfeydd pellaf sydd o fewn gofynion L8 y Cod Ymarfer Cymeradwy (ACoP) o drwch blewyn, ond nid o fewn canllawiau HTM 04-01. Mae angen arfarniad o'r adroddiad hwn gyda chynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd, er mwyn sicrhau system ddiogel.

Ymddengys fod profion llwybro o dymheredd llif a dychweliad y dŵr poeth i'r caloriffydd yn dangos nad yw'r tymheredd dychwelyd yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.agic.org.uk

**Gwasanaethau Cyffredinol**

Gwnaed adroddiad arolwg asbestos ar 16 Ebrill 2008, a chynghorwyd bod mwyafrif y gofynion wedi cael eu rhoi ar waith.

**Pwyntiau Cyffredinol**

Prynwyd a gosodwyd bath cynorthwyol ym mis Mawrth 2013, ac roedd yn cael ei gwasanaethu yn unol â threfniadau contractiol. Cafodd y teclynnau codi cleifion a'r lifft risiau eu gwasanaethu'n ddiweddar.

Gwasanaethwyd ac arolygwyd y boeleri nwy yn foddhaol ar 21 Mai 2014. Ers yr arolygiad diwethaf, cafodd trefniadau storio silindrau ocsigen eu gwella, a gosodwyd a chomisiynwyd peiriant llifddor newydd ym mis Mehefin 2014.

Rhoddwyd adborth ar lafar drwy gydol yr arolygiad ac ar ei ddiwedd.

**Gofynion newydd sy'n codi o'r arolygiad hwn:**

| Gweithred sy'n ofynnol | Rhif y rheoliad |
|---|---|
| Angen diweddaru Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y staff | Rheoliad 9 (1) (i) |
| Cynnal prawf dadwefru llawn tair awr o'r gosodiad golau argyfwng ac amnewid unrhyw ffitiadau diffygiol. | Rheoliad 26(4)(b) |
| Cynhyrchu cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â gofynion sydd angen sylw o'r Dystysgrif Ailarolygiad Gyfnodol a ddyddiwyd 9 Rhagfyr 2012 | Rheoliad 26(2)(a) |
| Cynhyrchu cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â gofynion sydd angen sylw o'r Adroddiad Arolwg Hylendid Dŵr a ddyddiwyd 29 Ebrill 2013 | Rheoliad 26(2)(a) |

Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i'r aelodau staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os ydych yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.agic.org.uk

Yn gywir

**Phil Price**
Rheolwr Arolygu



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.agic.org.uk